# Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys y BBC

Gwasanaethau darlledu'r BBC

Gwasanaethau rhaglenni ar-alw'r BBC

Deunydd ar-lein y BBC

2 Gorffennaf 2026

# Cynnwys


1 Cyflwyniad ........ 3

2 Fframwaith statudol ........ 3

3 Pwerau gorfodi Ofcom ........ 5

4 Gweithdrefnau ........ 6

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r Gweithdrefnau y bydd Ofcom fel arfer yn eu dilyn wrth ystyried penderfynu ar sancsiwn yn erbyn y BBC mewn perthynas â thorri safonau cynnwys (gan gynnwys mewn perthynas â Thegwch a Phreifatrwydd) ar: **Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y DU** ("gwasanaethau darlledu'r BBC"); **Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw Cyhoeddus y DU** ("ODPS y BBC")[1] a ddarperir gan y BBC[2]; ac mewn **Deunydd Ar-lein Cyhoeddus y DU**[3] ("deunydd ar-lein y BBC"). Mae'r Gweithdrefnau hyn yn weithredol o 2 Gorffennaf 2026.

1.2 Os fydd Ofcom yn ystyried y byddai'n decach ac yn fwy priodol i ddilyn gweithdrefn wahanol mewn unrhyw achos penodol, byddwn yn egluro i'r BBC ein rhesymau dros wyro oddi wrth y Gweithdrefnau hyn. (Mae'r brys i fynd i'r afael â niwed parhaus posibl lle mae deunydd yn parhau i fod ar gael ar ODPS y BBC neu mewn deunydd ar-lein y BBC yn un enghraifft o reswm pam y gallai fod yn briodol i Ofcom wyro oddi wrth y Gweithdrefnau hyn.)

# 2 Fframwaith statudol

## Rheoleiddio Ofcom o'r BBC

2.1 Mae Ofcom yn rheoleiddio gwasanaethau'r BBC yn rhinwedd adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") i'r graddau y mae darpariaeth i wneud hynny wedi'i chynnwys yn Siarter ("y Siarter") a Chytundeb Fframwaith ("y Chytundeb Fframwaith") y BBC[4], Deddf 2003 a Rhan 5 o Ddeddf 1996.

## Gwasanaethau darlledu'r BBC

2.2 Mae dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â darlledu yn cynnwys sicrhau bod safonau sy'n darparu amddiffyniad digonol yn cael eu cymhwyso, yn achos pob gwasanaeth teledu a radio:

- i aelodau'r cyhoedd rhag deunydd sarhaus neu niweidiol mewn gwasanaethau o'r fath: adran 3(2)(e) o Ddeddf 2003;
- i aelodau'r cyhoedd a phob person arall rhag triniaeth annheg mewn rhaglenni a gynhwysir mewn gwasanaethau o'r fath a thorri preifatrwydd heb gyfiawnhad sy'n deillio o weithgareddau a gyflawnir at ddibenion gwasanaethau o'r fath: adran 3(2)(f) o Ddeddf 2003.

2.3 Yn rhinwedd adran 3(4)(g) o Ddeddf 2003, rhaid i Ofcom ystyried yr angen i sicrhau bod cymhwyso'r safonau hynny'n gwarantu lefel briodol o ryddid mynegiant orau.

2.4 Yn fwy penodol, mae gan Ofcom ddyletswydd o dan adran 319 o Ddeddf 2003 i osod safonau o'r fath ar gyfer cynnwys rhaglenni i'w cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio

---

[1] Megis BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).

[2] Mae'r gweithdrefnau sancsiynau sy'n berthnasol i wasanaethau a ddarperir gan gwmnïau'r BBC ar gael ar wefan Ofcom: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/71967/procedures_for_consideration.pdf nid oes gan Ofcom gylch gwaith i ystyried cwynion ynghylch BBC World Service ac nid yw'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i ddeunydd a ddarlledir ar World Service.

[3] Am y diffiniad o Ddeunydd Ar-lein Cyhoeddus y DU, gweler paragraffau 3A (9)-(11), Atodlen 3 o'r Cytundeb Fframwaith Diwygiedig. Mae hyn i'w weld yng nghymal 7 o Ddiweddariadau i Gytundeb Fframwaith y BBC: Rhagfyr 2025, 16 Rhagfyr 2025.

[4] https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement

fel yr ymddengys i Ofcom ei gyfrifo orau i sicrhau "amcanion safonau", a nodir yn adran 319(2). Mae'n ofynnol i Ofcom sefydlu codau sy'n cynnwys y safonau hyn. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae Ofcom yn cymhwyso darpariaethau Cod Darlledu Ofcom ("y Cod Darlledu").[5]

2.5 Yn yr un modd, mae gan Ofcom ddyletswydd benodol o dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996") i lunio cod sy'n rhoi canllawiau ynghylch yr egwyddorion i'w dilyn a'r arferion sydd i'w dilyn gan ddarlledwyr mewn cysylltiad ag osgoi triniaeth anghyfiawn neu annheg[6] mewn rhaglenni a thorri preifatrwydd heb gyfiawnhad mewn rhaglenni (neu mewn cysylltiad â chael gafael ar ddeunydd sydd wedi'i gynnwys ynddynt). Cyfeirir at hyn fel y "Cod Tegwch". Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno, mae Ofcom yn defnyddio Adrannau Saith ("Tegwch") ac Wyth ("Preifatrwydd") o'r Cod Darlledu.

2.6 Mae'r Siarter a'r Cytundeb Fframwaith yn nodi rhwymedigaethau'r BBC i gydymffurfio â'r Cod Darlledu a phwerau Ofcom i ymchwilio a gorfodi cydymffurfiaeth gan y BBC.

## ODPS y BBC

2.7 O dan Siarter a Chytundeb Fframwaith, yn ogystal â gwasanaethau darlledu'r BBC, rhaid i ODPS y BBC gydymffurfio â'r Cod Darlledu i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu ODPS y BBC.[7]

## Deunydd ar-lein y BBC

2.8 O dan y Cytundeb Fframwaith, fel y'i diwygiwyd ym mis Rhagfyr 2025, mae gan Ofcom ddyletswydd hefyd i osod y safonau o'r fath ar gyfer deunydd ar-lein y BBC yr ymddengys i Ofcom fel y rhai sydd orau i sicrhau'r "amcanion safonau" a nodir yn adrannau 319(2)(a) – (f) o Ddeddf 2003. Mae'n ofynnol i Ofcom sefydlu un neu fwy o godau sy'n cynnwys y safonau hyn. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae Ofcom yn cymhwyso darpariaethau Cod Deunydd Ar-lein y BBC.

2.9 Wrth ddarparu deunydd ar-lein y BBC, rhaid i'r BBC hefyd gydymffurfio â'r Cod Tegwch i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu deunydd ar-lein y BBC. At ddibenion gorfodi cydymffurfiaeth y BBC â'r Cod Tegwch mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC, byddwn yn cymhwyso Adrannau Saith ac Wyth presennol y Cod Darlledu, i'r graddau yr ydym yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu'r deunydd ar-lein hwnnw.

2.10 Mae'r Siarter a'r Cytundeb Fframwaith yn nodi rhwymedigaethau'r BBC i gydymffurfio â Chod Deunydd Ar-lein y BBC a'r Cod Tegwch a phwerau Ofcom i ymchwilio a gorfodi cydymffurfiaeth gan y BBC.

## Pwerau gorfodi Ofcom

2.11 Mae y Siarter yn nodi, os yw Ofcom yn fodlon bod y BBC wedi methu â chydymffurfio â gofyniad penodol, gall Ofcom:

a) gyfarwyddo'r BBC, neu dderbyn ymrwymiadau gan y BBC, i gymryd y camau y mae Ofcom yn eu hystyried yn:

[5] https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/broadcast-standards/broadcast-code?language=cy
[6] Diffinnir triniaeth anghyfiawn neu annheg gan adran 130 o Ddeddf 1996 fel triniaeth sy'n anghyfiawn neu'n annheg oherwydd y ffordd y mae deunydd sydd wedi'i gynnwys mewn rhaglen wedi'i ddewis neu ei drefnu.
[7] Mae ODPS y BBC hefyd yn destun i ofynion statudol penodol o dan Ran 4A o Ddeddf 2003, gan gynnwys rheolau mewn perthynas â gosod deunydd niweidiol a chynhyrchion.

i) unioni'r methiant i gydymffurfio;

ii) sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio'n briodol â'i ofynion yn y dyfodol,

b) cyflwyno hysbysiad i'r BBC yn ei gwneud yn ofynnol iddo dalu cosb ariannol benodol iddynt, o fewn cyfnod penodedig. Y gosb uchaf y gellir ei gosod ar unrhyw achlysur yw £250,000.[8]

# 3 Pwerau gorfodi Ofcom

3.1 Mae gosod sancsiwn yn fater difrifol. Gall Ofcom, yn dilyn proses briodol, osod sancsiwn os yw'n ystyried bod y BBC (mewn perthynas ag unrhyw un o'i wasanaethau darlledu, ODPS y BBC a/neu ddeunydd ar-lein y BBC)[9] wedi torri gofyniad y Cod Darlledu yn ddifrifol, yn fwriadol, dro ar ôl tro neu'n ddi-hid, God Deunydd Ar-lein y BBC neu'r Cod Tegwch.

3.2 Mae enghreifftiau o'r sancsiynau y gall Ofcom eu gosod yn cynnwys penderfyniad i:

- gyhoeddi cyfarwyddyd i beidio ag ailadrodd rhaglen;
- gyhoeddi cyfarwyddyd i dynnu a pheidio â chynnwys eitem yn ei ddeunydd ar-lein ar unrhyw achlysur yn y dyfodol;
- gyhoeddi cyfarwyddyd i gyfyngu mynediad at raglen ar ddeunydd ar-lein ODPS y BBC a/neu BBC;
- gyhoeddi cyfarwyddyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr cyn dewis rhaglen benodol ar ODPS y BBC a/neu ddeunydd ar-lein penodol y BBC;
- gyhoeddi cyfarwyddyd i gynnwys cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau Ofcom, yn y geiriau a'r modd a bennir gan Ofcom, neu ddolen i benderfyniad Ofcom ynghylch torri'r gorchymyn (neu grynodeb ohono) (neu'r tri); a/neu[10]
- gosod cosb ariannol.

3.3 Yn unol â'r Siarter, gall Ofcom gyfarwyddo'r BBC, neu dderbyn ymrwymiadau gan y BBC, i gymryd camau eraill y mae'n eu hystyried yn briodol o dan amgylchiadau'r achos.

## Cyfarwyddyd i beidio ag ailadrodd rhaglen

3.4 Os yw Ofcom yn fodlon bod cynnwys rhaglen gan y BBC yn unrhyw un o'i wasanaethau darlledu a/neu ODPS y BBC yn rhan o  dorri'r Cod Darlledu, gall gyfarwyddo'r BBC i beidio â chynnwys y rhaglen honno yn y gwasanaeth(au) ar unrhyw achlysur yn y dyfodol.

## Cyfarwyddyd i ddileu a gwahardd eitem o ddeunydd ar-lein y BBC

3.5 Os yw Ofcom yn fodlon bod postio eitem o ddeunydd ar Lein y BBC yn golygu torri Cod Deunydd Ar-lein y BBC neu'r Cod Tegwch, gall gyfarwyddo'r BBC i ddileu'r eitem honno a pheidio â chynnwys yr eitem yn ei ddeunydd ar-lein ar unrhyw achlysur yn y dyfodol.

## Cyfarwyddyd i gynnwys cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau

3.6 Os yw Ofcom yn fodlon:

[8] Mae'r uchafswm wedi'i bennu yn adran 198(5) o Ddeddf 2003.

[9] Byddai torri dro ar ôl tro yn cynnwys, er enghraifft: ailadrodd torri'r un gofyniad ag sydd eisoes wedi'i gofnodi; ailadrodd yr un ymddygiad neu ymddygiad tebyg â'r hyn a oedd yn groes i ofyniad yn gynharach; neu dorri gofynion eraill sawl tro.

[10] Mewn rhai achosion, gall Ofcom osod mwy nag un sancsiwn.

c) bod y BBC, mewn perthynas ag unrhyw un o'i wasanaethau darlledu, wedi torri'r Cod Darlledu, Cod Deunydd Ar-lein y BBC, a/neu'r Cod Tegwch (fel y bo'n berthnasol);

d) y gellir unioni'r toriad yn briodol drwy gynnwys cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau neu ddolen i benderfyniad Ofcom ynghylch torri'r gorchymyn (neu grynodeb ohono) (neu'r tri) yn y gwasanaeth(au) perthnasol neu ddeunydd ar-lein y BBC)

Gall Ofcom gyfarwyddo'r BBC i gynnwys cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau neu ddolen i benderfyniad Ofcom (neu grynodeb ohono) (neu'r tri a nodwyd) yn y gwasanaeth(au) a/neu ddeunydd ar-lein y BBC (fel y bo'n berthnasol).

3.7 Gall cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i'r cywiriad neu'r datganiad o ganfyddiadau fod ar y ffurf, a'i gynnwys mewn rhaglenni ar unrhyw adegau, neu mewn lleoliadau o'r fath yn neu mewn perthynas â deunydd ar-lein penodol y BBC, y gall Ofcom benderfynu.

3.8 Pan fo'r BBC yn cynnwys cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau mewn gwasanaeth a/neu ddeunydd ar-lein y BBC yn unol â chyfarwyddyd o'r fath, gall gyhoeddi ei fod yn gwneud hynny yn unol â chyfarwyddyd.

## Cosb ariannol[11]

3.9 Os yw Ofcom yn fodlon bod y BBC, mewn perthynas ag unrhyw un o'i wasanaethau darlledu, ODPS y BBC a/neu ddeunydd ar-lein y BBC, wedi torri'r Cod Darlledu, Cod Deunydd Ar-lein y BBC a/neu'r Cod Tegwch, gall osod cosb ariannol ar y BBC.

3.10 Nid yw gosod cosb ariannol yn atal gosod unrhyw sancsiwn arall mewn perthynas â'r un toriad(au).

## Gwneud penderfyniadau o dan y Gweithdrefnau hyn

3.11 Yn unol â'r Siarter, ni fydd Ofcom yn gosod sancsiwn ar y BBC oni bai ei fod wedi rhoi cyfle rhesymol i'r BBC wneud sylwadau am y materion sy'n ymddangos i Ofcom i ddarparu sail dros osod y sancsiwn.

3.12 Mewn achosion sancsiynau o dan y Gweithdrefnau hyn, bydd penderfyniadau ar sancsiynau yn cael eu gwneud gan ddau uwch aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom sydd wedi cael awdurdod dirprwyedig priodol gan Fwrdd Ofcom (un ohonynt fydd y gwneuthurwr penderfyniadau terfynol ar y toriad), ynghyd ag aelod Anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom.

3.13 Ni fydd gwneuthurwr penderfyniadau mewn achos sancsiynau wedi bod yn rhan o'r ymchwiliad i'r toriad, hyd at a chan gynnwys paratoi'r Farn Ragarweiniol ar y toriad.

3.14 Pan fydd Ofcom yn ysgrifennu at y BBC yn unol â pharagraff 4.3 isod, bydd yn nodi'r gwneuthurwr(wyr) penderfyniad.

# 4 Gweithdrefnau

## Ystyried sancsiynau

4.1 Mae'r ystyriaeth o sancsiwn o dan y Gweithdrefnau hyn yn dilyn penderfyniad gan Ofcom bod y BBC wedi torri gofyniad o'r Cod Darlledu a/neu God Deunydd Ar-lein y BBC. Fel arfer, ystyrir achos ar gyfer gosod sancsiwn pan fydd Ofcom yn ystyried bod y BBC wedi torri'r Cod

[11] Mae canllawiau Cosb Ofcom, sy'n nodi sut mae'n bwriadu pennu swm y cosbau y mae'n eu gosod, i'w gweld yn: https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/corporate-policies/penalty-guidelines.

Darlledu, Cod Deunydd Ar-lein y BBC, a/neu'r Cod Tegwch yn ddifrifol, yn fwriadol, dro ar ôl tro, neu'n ddi-hid.

4.2 Nod Ofcom yw cwblhau'r gwaith o ystyried gosod sancsiwn o fewn 60 diwrnod gwaith o'r dyddiad y mae Ofcom yn cofnodi'r toriad(au) o'r Cod Darlledu, Cod Deunydd Ar-lein y BBC, a/neu'r Cod Tegwch. Fodd bynnag, gall amgylchiadau achosion unigol amrywio'n sylweddol, a gall cwblhau mewn cymryd mwy o amser mewn rhai achosion.

4.3 Os yw Ofcom o'r farn y gallai sancsiwn fod yn briodol, bydd yn ysgrifennu at y BBC gyda'r wybodaeth ganlynol, fel y bo'n briodol:

- manylion y toriad(au);
- sylwadau ar unrhyw fater a godwyd gan y BBC sy'n berthnasol i'r achos;
- manylion unrhyw achosion perthnasol y mae Ofcom eisoes wedi dyfarnu arnynt;
- manylion hanes cydymffurfio diweddar y BBC;
- manylion Barn Ragarweiniol Ofcom y gallai sancsiwn fod yn briodol;
- manylion Barn Ragarweiniol Ofcom o'r math a lefel unrhyw sancsiwn a ystyrir yn briodol ac yn gymesur;
- crynodeb o'r deunydd y mae wedi dibynnu arno wrth gyrraedd ei Farn Ragarweiniol; a
- copi o'r ddogfennaeth berthnasol[12] y mae Ofcom wedi'i hystyried.

4.4 Ar y cam hwn, mae Barn Ragarweiniol Ofcom yn nodi y dylai'r sancsiwn priodol gynnwys cosb ariannol, bydd, fel y bo'n briodol, yn ystyried y gosb yn unol â'r Canllawiau Cosb a gyhoeddwyd gan Ofcom yn: https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/corporate-policies/penalty-guidelines.

4.5 Bydd Ofcom yn gwahodd y BBC i wneud sylwadau ar ei Farn Ragarweiniol y gallai sancsiwn fod yn briodol ac o fath a lefel unrhyw sancsiwn sy'n cael ei ystyried. Yn dibynnu ar fath a lefel unrhyw sancsiwn, gall hyn fod drwy sylwadau ysgrifenedig a/neu lafar fel y bo'n briodol ym marn Ofcom (gweler paragraffau 4.6 i 4.8 isod).

## Sylwadau ysgrifenedig

4.6 Bydd gan y BBC y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig ar Farn Ragarweiniol Ofcom y gallai sancsiwn fod yn briodol ac ar y math a lefel o unrhyw sancsiwn sy'n cael ei ystyried. Yn arferol, y cyfnod ar gyfer sylwadau ysgrifenedig fydd 15 diwrnod gwaith, oni nodir yn wahanol. Mewn amgylchiadau penodol, gall Ofcom, os yw'n ystyried ei fod yn briodol, ofyn am ragor o wybodaeth neu sylwadau gan y BBC.[13]

## Cyflwyniadau llafar

4.7 Yn ogystal, bydd Ofcom yn cynnig cyfle i'r BBC fynychu gwrandawiad llafar i wneud sylwadau llafar ar faterion y cyfeirir atynt yn Farn Ragarweiniol Ofcom. Fel arfer, bydd Ofcom yn rhoi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd i'r BBC o'r dyddiad ar gyfer gwneud y sylwadau hynny. Bydd y gwrandawiad yn breifat a chael ei gynnal yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban, neu ar-lein, fel y bo'n briodol. Bydd y gwrandawiad yn cael ei drawsgrifio, a bydd y

[12] Gall Ofcom atal deunydd y mae'n credu ei fod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu'n gyfreithiol freintiedig neu ei fod o dan ryw rwymedigaeth gyfreithiol arall i amddiffyn rhag datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd y BBC yn cael gwybod bod deunydd perthnasol wedi'i atal a'r rhesymau pam.
[13] O dan Erthygl 47 o Siarter y BBC, gall Ofcom ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ac unrhyw berson arall ddarparu gwybodaeth at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau gan Ofcom.

trawsgrifiad yn cael ei ddarparu i'r BBC. Gall y BBC ddod â chynghorwyr cyfreithiol i'r gwrandawiad llafar i gynorthwyo i gyflwyno ei sylwadau llafar.

4.8 Bydd y weithdrefn ar gyfer gwneud sylwadau llafar yn ôl disgresiwn Ofcom. Bydd Ofcom yn ysgrifennu at y BBC cyn y dyddiad ar gyfer clywed y sylwadau, i nodi beth fydd y weithdrefn.

## Gwaredu

4.9 Ar ôl ystyried sylwadau ysgrifenedig a/neu lafar gan y BBC, gall Ofcom benderfynu nad oes unrhyw sancsiwn yn briodol mewn achos penodol. Yna bydd y BBC yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig i'r perwyl hwn a bydd hysbysiad ym Mwletin Darlledu ac Ar-alw a/neu Fwletin ar gyfer Cwynion am Ddeunydd Ar-lein y BBC.

## Penderfyniad sancsiynau

4.10 Os, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a sylwadau gan y BBC, mae Ofcom yn credu bod sancsiwn yn briodol, bydd yn ystyried a phenderfynu pa un o'r sancsiynau sydd ar gael sy'n briodol. Os bydd Ofcom yn penderfynu y dylai'r sancsiwn gynnwys cosb ariannol, bydd, fel y bo'n briodol, yn ystyried Canllawiau Cosb Ofcom a gyhoeddwyd yn: https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/corporate-policies/penalty-guidelines

## Penderfyniad Sancsiwn

4.11 Bydd y Penderfyniad Sancsiwn, ynghyd â datganiad o resymau, yn cael ei anfon at y BBC, er gwybodaeth yn unig, un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi.

4.12 Bydd Ofcom yn cyhoeddi ei benderfyniad ar ei wefan. Fel arfer, cyhoeddir crynodeb o'r Penderfyniad Sancsiwn lle bo'n berthnasol yn:

- Bwletin Darlledu ac Ar-alw Ofcom yn: https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-standards/broadcast-bulletins;
- Bwletin Ofcom ar gyfer Cwynion am Ddeunydd Ar-lein y BBC yn: https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-standards/bbc-online-bulletin.

## Peidio â Datgelu

4.13 Mae'n hanfodol i uniondeb prosesau Ofcom a'i allu i reoleiddio'n deg bod pob parti yn cydymffurfio â rheolau a gweithdrefnau cyhoeddedig Ofcom, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â pheidio â datgelu isod.[14]

**Peidio â Datgelu**

Mae Ofcom yn disgwyl i'r BBC gadw'r holl wybodaeth, gohebiaeth a dogfennau sy'n ymwneud ag achosion sancsiynau yn gwbl gyfrinachol, oni bai eu bod eisoes yn y parth cyhoeddus. Yn benodol, mae Ofcom yn disgwyl i'r BBC gadw'n unrhyw wybodaeth a

[14] Mae'n ofynnol i Ofcom gyflawni rhwymedigaethau statudol amrywiol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd angen i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a ddarperir i Ofcom er mwyn cyflawni rhwymedigaethau o'r fath.

ddarperir iddo gan Ofcom fel rhan o'r broses sancsiynau yn gwbl gyfrinachol, gan gynnwys unrhyw arwyddion/penderfyniad dros dro ar fath a lefel unrhyw sancsiwn y gellir ei gosod.[15]

Nid yw hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gall Ofcom ei gyhoeddi yn ei benderfyniad ar ddiwedd yr ymchwiliad.

## Terfynau amser

4.14 Dylai'r BBC gadw at y terfynau amser a bennir yn y Gweithdrefnau hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd Ofcom yn ystyried ei bod yn briodol (er budd tegwch a/neu er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch sancsiynau yn briodol) i ddiwygio neu addasu'r terfynau amser mewn achos penodol. Os yw'r BBC angen estyniad i derfyn amser, dylai esbonio'n ysgrifenedig i Ofcom pam ei fod yn credu y dylid ymestyn y terfyn amser perthnasol.

[15] Gall Ofcom atal deunydd y mae'n credu ei fod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu'n gyfreithiol freintiedig neu ei fod o dan ryw rwymedigaeth gyfreithiol arall i amddiffyn rhag datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd y BBC yn cael gwybod bod deunydd perthnasol wedi'i atal a'r rhesymau pam.